

Taflen wybodaeth i unigolion sydd wedi cael eu gwahodd yn anghywir i gael pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn COVID-19

Beth sydd wedi digwydd?

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi cynnwys rhai pobl sy'n imiwnoataliedig (â system imiwnedd wan) fel rhai sy'n gymwys i gael pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn. Mae rhai unigolion yng Nghymru wedi'u nodi'n anghywir fel rhai sy'n gymwys i fod yn rhan o'r grŵp hwn a gafodd gynnig brechiad atgyfnerthu'r gwanwyn COVID-19. Efallai eich bod eisoes wedi derbyn llythyr ynghylch hyn neu byddwch yn derbyn llythyr yn fuan.

Mae'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y grŵp imiwnoataliedig bellach yn ehangach ar gyfer pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn nag y bu o'r blaen. Felly efallai eich bod wedi cael eich nodi'n anghywir yn y grŵp imiwnoataliedig oherwydd problem o ran nodi cleifion yn electronig. Mae hyn oherwydd y gallech fod ar y rhestr fel rhywun sy'n gymwys i gael triniaethau penodol (cyffuriau gwrthfeirysol) os ydych yn cael COVID-19.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Os ydych dros 75 oed, yn breswlydd mewn cartref gofal i bobl hŷn neu'n imiwnoataliedig yna rydych yn parhau i fod yn gymwys i gael pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn. I'r rhai nad ydynt yn y grwpiau hyn sydd wedi'u nodi'n anghywir fel rhai sy'n gymwys, bydd y cynnig i gael brechiad ychwanegol yn cael ei anrhydeddu. Mae hyn oherwydd eich bod yn rhywun sy'n wynebu risg uwch o salwch difrifol os byddwch yn cael COVID-19 ac felly'n debygol o gael budd o frechiad atgyfnerthu'r gwanwyn gan y bydd y brechiad yn rhoi amddiffyniad ychwanegol.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Eich dewis chi yw p'un a ydych yn cael y brechlyn atgyfnerthu ychwanegol hwn neu'n gwrthod y cynnig. Ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar unrhyw gynnig i gael brechiad COVID-19 yn y dyfodol os ydych yn gymwys. Gall helpu i siarad â brechw'r COVID-19 i wneud eich penderfyniad.

Sgil-effeithiau

Fel gyda'ch dosau blaenorol, mae sgil-effeithiau cyffredin yr un peth ar gyfer pob dos o frechlyn COVID-19. Mae manteision cael y brechiad yn drech na'r risgiau o sgil-effeithiau.

Mae rhagor o wybodaeth am sgil-effeithiau ar gael yn y taflenni gwybodaeth i gleifion sydd ar gael yn ddigidol yn: icc.gig.cymru/brechlyncovid

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: llyw.cymru/brechiadau-atgyfnerthu-covid-19

Cyhoeddwyd Mai 2022

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru f1

ISBN: 978-1-83766-015-5